

Gwisg Ysgol

Mae gwisg swyddogol yr ysgol yn rhoi cyfle ichi fel disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe fod yn falch o'ch ysgol, teimlo eich bod yn perthyn iddi a bod yn barod i gynnal safonau uchel o ymddygiad ac ymrwymiad i waith a nodau'r ysgol. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o ran safonau gwisg a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio â'n rheolau.

Gwisg swyddogol yr ysgol.

Bechgyn	Merched
Esgidiau du plaen. Rhaid bod eich trowsus yn gorchuddio unrhyw 'fŵts' du plaen.	Esgidiau du plaen. Rhaid bod eich trowsus yn gorchuddio unrhyw 'fŵts' du plaen. Ni chaniateir sodlau uwch na 4cm.
Sanau plaen tywyll.	Sanau plaen tywyll neu deits du heb batrwm
Trowsus du plaen. Ni chaniateir jîns o unrhyw fath (gan gynnwys jîns tynn), 'cords', trowsus tynn 'lycra' na throwsus 'combat'.	Trowsus du plaen. Ni chaniateir jîns o unrhyw fath (gan gynnwys jîns tynn), 'cords', trowsus tynn 'lycra' na throwsus 'combat'. Sgert ddu blaen sy'n cyrraedd y pen-glin. Ni chaniateir sgertiau elastig tynn.
Crys polo cotwm gwyn gyda logo'r ysgol.	Crys polo cotwm gwyn gyda logo'r ysgol.
Crys chwys nefi gyda logo'r ysgol yn unig.	Crys chwys nefi gyda logo'r ysgol yn unig.
Hwddi swyddogol yr ysgol du neu nefi.	Hwddi swyddogol yr ysgol du neu nefi.
Cot blaen du neu nefi. Ni chaniateir cotiau lledr na ffug lledr.	Cot blaen du neu nefi. Ni chaniateir cotiau lledr na ffug lledr.

Gwisg swyddogol Addysg Gorfforol yr ysgol.

Bechgyn	Merched
Esgidiau hyfforddi neu rygbi/pen droed addas.	Esgidiau hyfforddi addas.
Sanau swyddogol yr ysgol, lliw gwîn a streipen las golau/sanau gwyn hyfforddi.	Sanau swyddogol yr ysgol, lliw gwîn a streipen las golau/sanau gwyn hyfforddi.
Siorts pêl-droed/siorts rygbi nefi gyda logo'r ysgol.	Siorts pêl-droed/sgert gyda logo'r ysgol.
Trowsus chwys swyddogol yr ysgol.	Trowsus chwys swyddogol yr ysgol.
Crys-T nefi gyda logo'r ysgol.	Crys-T nefi gyda logo'r ysgol.
Crys rygbi swyddogol yr ysgol, lliw gwîn a glas golau gyda logo'r ysgol.	Siwmpwr addysg gorfforol lliw gwîn gyda logo'r ysgol.

Disgwyliadau ymddangosiad

Tlysau

Nid oes hawl gan ddisgyblion i wisgo tlysau heblaw'r canlynol: oriawr, un pâr o styds plaen ar waelod y clustiau, un fodrwy blaen ar fys. Ni chaniateir gwisgo tlysau mewn unrhyw ran arall o'r corff am resymau lechyd a Diogelwch.

Colur

Nid oes hawl gan ddisgyblion i wisgo colur, ffug-amrannau na lliw haul ffug.

Nid oes hawl gwisgo paen ewinedd, nag estyniadau i'r ewinedd.

Gwallt

Ni chaniateir defnyddio lliw gwallt annaturiol na steil sy'n eithafol o ran ffasiwn. Yr ysgol sy'n penderfynnu yr hyn sy'n eithafol. Gall steil eithafol gynnwys, pen wedi'i siafo, 'tramlines', 'dreadlocks', estyniadau ayyb. Nid oes hawl gwisgo bandiau na chlipiau gwallt trwchus na lliwgar – dim ond rhai nefi neu ddu plaen.

Yr ysgol sy'n penderfynnu yr hyn sy'n dderbyniol o ran gwisg ac ymddangosiad.

Os na fydd disgyblion yn cydymffurfio fe fydd camau disgyblu yn dilyn.